

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mawrth 12fed 2013 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Arwel Davies (Cadeirydd), Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Gwilym Davies, Euros Puw, Jean Roberts, Geraint Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhys Richards a Gwynedd Jones.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Ysgol Y Parc.

Adroddodd y clerch bod y cynghorwyr lleol wedi cyfarfod gyda Phwyllgor Rheoli'r Neuadd a'r Swyddog Adfywio Bro i drafod cynnig Cyngor Gwynedd. Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol i dderbyn cynnig Cyngor Gwynedd i werthu'r adeilad i'r Cyngor Cymuned ac yna ei lesio i'r Pwyllgor Rheoli. Gofynnwyd i'r clerch anfon at Gyngor Gwynedd i gadarnhau bod y Cyngor yn cytuno i brynu adeilad yr ysgol.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn.

i) Chopi o gofnodion y cyfarfod diwethaf, 26/02/13.

b) Cyngor Gwynedd.

i) Derbyniwyd e-bost yn hysbysu'r Cyngor bod Cyngor Gwynedd yn y broses o ddatblygu ei gynllun strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2013-17. Roedd gofyn i'r cynghorwyr ddarllen y ddogfen drafft cyn mynychu'r digwyddiadau cynghori ond gan mai dim ond ychydig o ddyddiau o rybudd a gafwyd nid oedd yn ymarferol i fynychu'r digwyddiad agosaf. Roedd posib gyrru ymateb ar-lein felly dosbarthwyd y wybodaeth berthnasol.

c) Heddlu Gogledd Cymru

i) Llythyr yn ein cynghori o'i ymgyrch 'Gwisgo Gwregys'.

ch) Amrywiol

i) Prosiect 'Marchnad Mentro' i Blant Ysgolion Cynradd. Derbyniwyd cais am wybodaeth am unrhyw sgiliau traddodiadol lleol a fyddai o ddefnydd iddynt gyda'r prosiect.

ii) Urdd Gobaith Cymru - Derbyniwyd gwybodaeth am Wyl Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd a gynheli'r ym Mlaenau Ffestiniog ar y 27/4/13.

ii) Ombwdsmon - Copïau o'r llaw lyfr 'Sut i gwyno bod aelod o awdurdod lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad'.

Materion Ariannol.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog y clerch (Hydref i ddiwedd Mawrth)

CTHEM (TWE - Hydref i ddiwedd Mawrth)

Neuadd Maesywaen (Llogi)

John Roberts (archwilydd mewnol - cyfrifon 2011-12)

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cyfrannu i'r canlynol :-

Eisteddfod Talybont, Cylch Meithrin/ Ti a Fi Maesywaen, Ysgol Y Parc,
Neuadd Y Parc, Ysgol Bro Tryweryn, Sioe Ardal Maesywaen,
Urdd Gobaith Cymru Cylch Penllyn, CFFI Meirionnydd, Ambiwllans Awyr Cymru
Tŷ'r Eos, Cantref, Urdd Gobaith Cymru - Pwyllgor Apêl Y Parc a Pwyllgor Apêl y Waen,
Rhyduchaf, Llidiardau a'r Arenig

Unrhyw Fater Arall.

Byrnau mawr ar guriau pentref Rhyduchaf.

Roedd un o'r cynghorwyr wedi derbyn cwynion bod y byrnau mawr yn cael ei gadael ar ochr y ffordd ac yn cuddio arwydd pentref Rhyduchaf. Cytunwyd bod angen i'r Cyngor dderbyn llythyr gyda manylion y gwyn cyn mynd a'r mater ymhellach.

Blwch postio ym mhentref Parc.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Post Brenhinol i'w cynghori bod y cerrig o gwmpas y blwch postio yn rhydd ac angen sylw.

Cae Chwarae Parc.

Roedd rhai o drigolion y pentref wedi gofyn i'r cynghorwyr am offer ychwanegol i'r cae chwarae. Cytunwyd i ofyn am lythyr gan y trigolion er mwyn ei basio'n mlaen i Gyngor Gwynedd gan maen nhw oedd yn gyfrifol am y cae chwarae.